# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 18 Mawrth 2021

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Llinos Madeley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.Senedd.TV

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.15)

## 2 COVID-19: plant sy'n agored i niwed

(09.15 - 10.00) (Tudalennau 1 - 12)

Sarah Crawley, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant - Barnardo's Cymru

Brigitte Gater, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Cymru - Gweithredu dros Blant

Cecile Gwilym, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus - NSPCC

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

## Egwyl

(10.00 - 10.15)

## 3 COVID-19: plant sy'n agored i niwed

(10.15 - 11.00)

Deborah Jones, Prif Swyddog Gweithredol, Voices From Care

Emma Phipps-Magill, Rheolwr Llesiant - Voices From Care

Sharon Lovell, Prif Swyddog Gweithredol - Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru (NYAS)

Ben Twomey, Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil - Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru

Jackie Murphy, Prif Swyddog Gweithredol, Tros Gynnal Plant Cymru

## Egwyl

(11.00 - 11.15)

## 4 COVID-19: plant sy'n agored i niwed

(11.15 - 12.00)

Sally Jenkins, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd - Cyngor Dinas Casnewydd

Jan Coles, Pennaeth Gwasanaethau Plant - Cyngor Sir Powys

Nicola Stubbins, Llywydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS)

Jonathan Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai - Cyngor Sir Penfro

## 5 Papurau i'w nodi

(12.00)

### 5.1 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020

(Tudalennau 13 - 19)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-09-21 - Papur i'w nodi 1

### 5.2 Llythyr gan y Llywydd at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 - effaith ar Bwyllgorau'r Senedd

(Tudalennau 20 - 21)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-09-21 - Papur i'w nodi 2

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(12.00)

## 7 COVID-19 - Trafod yr adroddiad drafft

(12.00 - 12.30) (Tudalennau 22 - 35)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-09-21 - Papur preifat (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf MA JM 1018 21

Lynne Neagle AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Caerdydd CF99 1SN

15 Mawrth 2021

Annwyl Lynne,

Rwy'n ysgrifennu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y cynigion cyfredol ar gyfer casglu data, a chynlluniau ymchwil, i asesu a monitro effaith y Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru), gan gynnwys drwy adroddiadau adolygu ôl-weithredol sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth.

Ym mis Rhagfyr 2019, ysgrifennais at y Grŵp Gweithredu Strategol a oedd yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth, yn gofyn eu cyngor ar gynnwys yr adroddiad adolygu ôl-weithredol. Fel y cofiwch, yn ystod proses graffu Cam 2 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn perthynas â'r Bil, roedd yna gyfres o welliannau anllywodraethol i ychwanegu manylion ynghylch yr hyn y dylid ei gynnwys mewn adroddiad adolygu ôl-weithredol ar wyneb y Bil. Gofynnais i'r Grŵp am eu hasesiad nhw o ymarferoldeb casglu'r data a amlinellwyd yn y gwelliannau hyn i'w gynnwys yn yr adolygiad ôl-weithredol. Rwyf wedi amgáu copi o'm llythyr, dyddiedig 11 Rhagfyr 2019 er gwybodaeth.

Cafodd y Grŵp Gweithredu Strategol gyngor ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen Casglu a Monitro Data, sy'n canolbwyntio ar feysydd y gwelliannau aflwyddiannus, a meysydd ychwanegol yr oedd y grŵp gorchwyl a gorffen o'r farn y dylid casglu data arnynt. Mae cadeirydd y Grŵp Gweithredu Strategol wedi ysgrifennu ataf yn rhoi eu cyngor ar y data y cynigir ei gasglu fel sail i'r adolygiad ôl-weithredol. Rwyf wedi amgáu'r cyngor hwn yn Atodiad 1. Mae'n bosibl y bydd angen ailedrych ar y cynnwys a gynigir wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i'r Pwyllgor.

Yn gywir,

Julie Morgan

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1 – Y cynnwys a gynigir ar gyfer yr adroddiad adolygu ôl-weithredol (Rhagfyr 2020)**

Mae'r atodiad hwn yn amlinellu safbwynt y Grŵp Gweithredu Strategol ynghylch y cynnwys a gynigir ar gyfer yr adroddiad adolygu ôl-weithredol. Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar yr argymhellion manwl a wnaed gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu a Monitro Data. Mae'r Grŵp Gweithredu Strategol yn cydnabod y bydd cynlluniau ymchwil Llywodraeth Cymru hefyd yn cyfrannu at yr adolygiad o effaith y newid yn y gyfraith. Rydym ar ddeall y bydd yr adroddiad adolygu ôl-weithredol, felly, yn cynnwys hefyd:

- Canlyniadau arolygon yn mesur ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth ac agweddau at gosbi plant yn gorfforol; a
- Gwaith ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr i ddeall sut mae'r newid yn y gyfraith wedi effeithio ar y ddarpariaeth rheng flaen.

***Y broses a gynigir ar gyfer Casglu a Monitro Data fel sail i'r adolygiad ôl-weithredol***

Hyd yma, mae gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen ar Gasglu a Monitro Data wedi canolbwyntio ar ffyrdd o gasglu a monitro data er mwyn asesu'r effaith ar wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys:

- 4 heddlu Cymru
- gwasanaethau cymdeithasol plant yng Nghymru
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi

Ystyriwyd hefyd yr effaith ar sefydliadau sy'n cyfeirio achosion at wasanaethau cymdeithasol plant a/neu'r heddlu, ee y sectorau iechyd ac addysg, a daethpwyd i'r casgliad bod modd cael gafael ar ddata perthnasol drwy wasanaethau cymdeithasol plant a systemau'r heddlu.

Mae'r gwaith o gasglu data'r heddlu a gwasanaethau cymdeithasol plant wedi cael blaenoriaeth hyd yma, er mwyn gallu casglu eu data cychwynnol nhw cyn gweithredu'r Ddeddf. Nid yw data cychwynnol yn berthnasol i Wasanaeth Erlyn y Goron na Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, gan na fydd modd casglu'r data cyn y newid yn y gyfraith: ar hyn o bryd, os yw amddiffyniad cosb resymol yn berthnasol, ni fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn erlyn, ac ni fydd y llysoedd yn ystyried yr achos. Dim ond lle byddai'r amddiffyniad wedi bod yn berthnasol o'r blaen y bydd modd cyfrif yr achosion yn dilyn y newid yn y gyfraith.

Disgrifir rhywfaint o'r data rydym yn cynnig ei gasglu yn yr adran nesaf sy'n rhoi sylw i'r materion a godwyd ym mhroses graffu Cam 2, a sut y gallwn gasglu data sy'n ymwneud â'r materion hynny (neu'n esbonio pam na allwn ei gasglu); ac yna ceir manylion data ychwanegol rydym yn cynnig ei gasglu fel sail i'r adolygiad ôl-weithredol.

***Ymarferoldeb cynnwys y materion penodol a godwyd ym mhroses graffu Cam 2 y ddeddfwriaeth yn yr adolygiad ôl-weithredol***

**Pwynt 1: Nifer y bobl a erlynir am gosbi plentyn yn gorfforol yng Nghymru**

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Casglu a Monitro Data wedi bod yn gweithio gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r heddlu er mwyn monitro'r niferoedd a gyfeirir at yr heddlu i'w herlyn, yn ogystal â'r rheini a erlynir am gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cytuno i ddiwygio eu System Rheoli Achosion ledled Cymru i gynnwys cod monitro mewn perthynas â'r achosion hyn. Bydd dysgu i ddefnyddio'r

cod monitro yn rhan o'r hyfforddiant sydd ar y gweill ar gyfer staff mewnol, ac unwaith y bydd yn fyw dylai ganiatáu inni greu data mewn perthynas â chyfrolau o achosion a ddaw i law Gwasanaeth Erlyn y Goron.

**Pwynt 2: Nifer y plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru**

Ar hyn o bryd, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru yn cael ei gofnodi fel mater o drefn fel rhan o Gyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth. Mae hyn yn cynnwys y plant hynny sydd wedi'u hychwanegu at y gofrestr amddiffyn plant oherwydd cam-drin corfforol.

Am y tro, nid oes cynlluniau ar y gweill i gofnodi nifer y plant sy'n derbyn gofal oherwydd cosbi corfforol yn benodol. Y rheswm am hyn yw bod y newid hwn yn y gyfraith yn cwmpasu achosion o gosbi corfforol ysgafn, ac nad yw'n fwriad newid y trothwy o ran pryd y cymerir plant i ofal. Mae yna achosion mwy difrifol o gam-drin corfforol eisoes lle nad yw'n anochel bod y plant yn cael eu cymryd i ofal. Yn hytrach, bydd yr adolygiad ôl-weithredol yn cynnwys nifer yr asesiadau a gynhaliwyd gan wasanaethau cymdeithasol plant yng Nghymru lle roedd cosbi corfforol yn ffactor.

**Pwynt 3: Nifer yr achosion y rhoddwyd gwybod i'r heddlu amdanynt o gosbi plentyn yn gorfforol yng Nghymru a nifer yr achosion o'r fath y rhoddodd y cyhoedd wybod amdanynt**

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Casglu a Monitro Data wedi bod yn gweithio gyda phedwar heddlu Cymru i benderfynu ar y ffordd orau o gyfrif nifer yr adroddiadau y mae'r heddlu yn eu derbyn sy'n ymwneud â chosbi corfforol. Gan nad yw'r newid yn y ddeddfwriaeth yn creu trosedd newydd, ni fydd modd cyfrif nifer yr achosion sy'n codi o ganlyniad uniongyrchol i'r Ddeddf, gan mai dim ond troseddau clir a gyfrifir ar hyn o bryd yn ôl rheolau cyfrif y Swyddfa Gartref. Mae'r grŵp wedi cytuno, felly, â chynrychiolwyr yr heddlu mai'r ffordd orau o amcangyfrif achosion o gosbi corfforol yw i ddadansoddwyr Llywodraeth Cymru gynllunio algorithm sy'n darllen pob ffeil achos ac sy'n ceisio cyfrifo nifer yr achosion sy'n ymwneud â rhiant yn cosbi plentyn yn gorfforol.

Mae'n anodd gwybod drwy ba gyfrwng y rhoddwyd gwybod am achosion i'r heddlu. Fodd bynnag, mae'r grŵp yn ymchwilio i p'un a yw'n bosibl canfod pa rai y rhoddwyd gwybod amdanynt drwy 999 neu 101, a pha rai y rhoddwyd gwybod yn uniongyrchol i Uned Amddiffyn y Cyhoedd amdanynt. Gallai hyn helpu i hidlo allan yr achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt gan weithwyr proffesiynol gwasanaethau cymdeithasol plant ac ysgolion, sy'n fwy tebygol o roi gwybod i Uned Amddiffyn y Cyhoedd, a chynnig amcangyfrif procsi o'r rheini y rhoddodd y cyhoedd wybod amdanynt, sy'n fwy tebygol o ffonio 101 neu 999.

Oherwydd natur y gwaith hwn, dylai fod modd dadansoddi achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt eisoes i'r heddlu, sy'n golygu y gall y grŵp ystyried data cychwynnol eang.

**Pwynt 4: Nifer yr achosion y rhoddwyd gwybod i adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol amdanynt o gosbi plentyn yn gorfforol yng Nghymru a nifer yr achosion o'r fath y rhoddodd y cyhoedd wybod amdanynt**

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Casglu a Monitro Data wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn ogystal â dadansoddwyr o wasanaethau cymdeithasol plant pob awdurdod lleol, sef yr Is-Grŵp Adrodd Cenedlaethol, er mwyn penderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o gyfrifo'r achosion y rhoddwyd gwybod i adrannau gwasanaethau cymdeithasol plant amdanynt sy'n ymwneud â chosbi corfforol. Mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno mai'r dull mwyaf effeithlon a thrwyadl o gasglu'r wybodaeth hon fyddai ei hymgorffori yn y fframwaith perfformiad newydd sy'n cael ei weithredu fel rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Cyfarfu cydgadeirydd y Grŵp Casglu a Monitro Data â'r Is-Grŵp Adrodd Cenedlaethol, a fydd yn gweithredu'r broses gasglu newydd, a chytunwyd i gasglu data ar y ddau ddangosydd canlynol:

Cyfanswm nifer y cysylltiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn lle:

- roedd cosbi corfforol gan riant neu ofalwr yn ffactor
- cosbi corfforol gan riant neu ofalwr oedd yr *unig* ffactor

Cyfanswm nifer yr asesiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle:

- roedd cosbi corfforol gan riant neu ofalwr yn ffactor

- cosbi corfforol gan riant neu ofalwr oedd yr *unig* ffactor

Mae adrannau gwasanaethau cymdeithasol plant eisoes yn casglu, fel mater o drefn, ffynonellau pob achos a gyfeirir atynt. Felly, dylai fod yn bosibl defnyddio'r broses gasglu newydd i gyfrifo sawl achos y rhoddodd y cyhoedd wybod amdanynt a sawl un y rhoddodd gweithwyr proffesiynol wybod amdanynt.

Cytunwyd y byddai'r data hwn yn cael ei gasglu o leiaf flwyddyn cyn gweithredu'r Ddeddf, ac am o leiaf bum mlynedd ar ôl dechrau ei gweithredu. Oherwydd y sefyllfa bresennol o ran COVID-19, nid yw'r fframwaith perfformiad yn cael ei weithredu am y tro. Fodd bynnag, oherwydd bod y prosiect yn caniatáu ar gyfer llithriant o ran problemau cychwynnol yn ystod y deuddeg mis cyntaf, mae'n dal i fod yn debygol y bydd modd casglu'r data am o leiaf flwyddyn cyn gweithredu'r Ddeddf.

**Pwynt 5: Y costau i unrhyw awdurdod datganoledig yng Nghymru (fel yr amlinellir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006) yn sgil y newidiadau yn y gyfraith**

Mae'r Grŵp Casglu a Monitro Data wedi trafod y costau posibl gyda chynrychiolwyr awdurdodau datganoledig Cymru, a daethpwyd i'r casgliad ei bod yn annhebygol y byddant yn ceisio mesur costau megis costau cyflogi staff newydd neu ddarparu hyfforddiant newydd/ychwanegol yn sgil y newid yn y gyfraith. Byddai costau o'r fath yn anodd eu mesur a'u cysylltu'n uniongyrchol â'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae'r Grŵp Casglu a Monitro Data yn bwriadu mesur y cynnydd mewn llwyth gwaith drwy ei waith monitro, a bydd yn gweithio gyda'r Grŵp Gweithrediadau, Canllawiau a Hyfforddiant  i fesur costau hyfforddiant lle bo modd. Yn ogystal, er ei fod y tu allan i gwmpas y gwaith casglu a monitro data sy'n cael ei ystyried gan y grŵp, rydym wrthi'n ystyried p'un a fydd modd asesu'r effaith bosibl ar lwyth gwaith drwy waith ansoddol gyda chyrff gwasanaethau cyhoeddus ar ôl i'r gyfraith ddod i rym.

**Pwynt 6: Y costau i unrhyw awdurdod datganoledig yng Nghymru wrth hyfforddi cyflogeion yn sgil y newidiadau yn y gyfraith**

Nid yw cynrychiolwyr awdurdodau datganoledig Cymru ar y Grŵp Casglu a Monitro Data yn rhagweld y byddant yn mesur cynnydd yn y costau yn sgil y newid hwn yn y gyfraith. Mae'r grŵp wedi cael gwybod ei bod yn debygol y caiff yr hyfforddiant arferol cyfredol ei addasu mewn sawl achos, er mwyn ymgorffori manylion y gyfraith newydd; bydd yn anodd, felly, nodi cost hyfforddi cyflogai ynghylch y newid yn y gyfraith yn benodol. Bydd aelodau'r Grŵp Casglu a Monitro Data yn gweithio gyda'r Grŵp Gweithrediadau, Canllawiau a Hyfforddiant er mwyn nodi ar ba bwynt y gellir cofnodi'r wybodaeth hon, os yn bosibl, fel ei bod ar gael at ddibenion yr adolygiad ôl-weithredol.

**Pwynt 7: Nifer y bobl a gyflogir gan unrhyw awdurdod datganoledig yng Nghymru sydd wedi mynychu hyfforddiant yn sgil y newidiadau yn y gyfraith**

Nid yw cynrychiolwyr awdurdodau datganoledig Cymru ar y Grŵp Casglu a Monitro Data yn rhagweld y byddant yn mesur cynnydd yn y personél sydd wedi mynychu hyfforddiant yn sgil y newid hwn yn y gyfraith. Fel y nodir uchod, mae'r grŵp wedi cael gwybod ei bod yn debygol y caiff yr hyfforddiant arferol cyfredol ei addasu mewn sawl achos, er mwyn ymgorffori manylion y gyfraith newydd, ac felly ni fydd yna sesiynau hyfforddiant ychwanegol i'w cofnodi. Bydd aelodau'r Grŵp Casglu a Monitro Data yn gweithio gyda'r Grŵp Gweithrediadau, Canllawiau a Hyfforddiant er mwyn nodi ar ba bwynt y gellir cofnodi'r wybodaeth hon, os yn bosibl, fel ei bod ar gael at ddibenion yr adolygiad ôl-weithredol.

***Data ychwanegol y cynigir ei gasglu***

Yn ogystal â'r pwyntiau uchod, mae'r Grŵp Casglu a Monitro Data hefyd yn ystyried y pwyntiau canlynol ar gyfer yr adolygiad ôl-weithredol:

- Heddlu Dyfed Powys i gofnodi nifer yr achosion a gyfeirir i Uned Amddiffyn y Cyhoedd gan y gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cofnodi ymhellach y gorgyffwrdd yng ngwaith yr heddlu a'r

gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn anoddach yn achos 3 heddlu arall Cymru sy'n defnyddio system Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth (MASH).

- Nifer yr achosion a gyfeirir i Wasanaeth Erlyn y Goron (p'un a yw'r Gwasanaeth yn dewis erlyn ai peidio). Mae'r grŵp yn gobeithio mesur hyn er mwyn mesur unrhyw gynnydd yn y llwyth gwaith cyffredinol i Wasanaeth Erlyn y Goron.
- Nifer y bobl a gafwyd yn euog. Mae'r grŵp am fesur y niferoedd a gafwyd yn euog yn sgil diddymu amddiffyniad cosb resymol.
- Nifer yr achosion yr ymdrinnir â nhw gan Cafcass Cymru. Hoffai'r grŵp fesur yr effaith ar Cafcass Cymru o ran nifer yr achosion cyfraith teulu lle mae cosbi corfforol yn ffactor.

Julie Morgan AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JM/5128/19

Karen Cornish
Cadeirydd
Grŵp Gweithredu Strategol
Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

11 Rhagfyr 2019

Annwyl Karen,

Hoffwn ddiolch i'r Grŵp Gweithredu Strategol, a'i Grwpiau Gorchwyl a Gorffen, am eu gwaith manwl ar gynlluniau gweithredu'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru), os bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol.

Yn ystod proses graffu'r Bil yng Nghyfnod 2 gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, cyflwynwyd cyfres o welliannau Anllywodraethol a oedd yn ceisio ychwanegu rhagor o fanylder am yr hyn a ddylai gael ei gynnwys mewn adroddiad ar yr adolygiad ôl-weithredu ar wyneb y Bil. Ni ddaethpwyd i gytundeb ar y gwelliannau hynny.

Nid wyf o'r farn bod angen y lefel honno o fanylder ar wyneb y Bil, ond rwy'n deall pwysigrwydd sicrhau bod yr adolygiad ôl-weithredu yn un cynhwysfawr sy'n adrodd am effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth a'i heffaith ar wasanaethau rheng flaen.

Gwerthfawrogwn safbwyntiau'r Grŵp Gweithredu Strategol am gynnwys posibl adroddiad yr adolygiad ôl-weithredu, ynghyd â gwybodaeth am ba mor ymarferol yw cynnwys effaith y newidiadau i'r gyfraith y gallai diddymu amddiffyniad cosb resymol ei chael ar y materion y rhoddir sylw iddynt yng ngwelliannau aflwyddiannus Cyfnod 2 y Bil:

- Nifer y bobl a erlynir am gosbi plentyn yn gorfforol yng Nghymru;
- Nifer y plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru;
- Nifer yr adroddiadau i'r heddlu am gosbi plentyn yn gorfforol yng Nghymru, a faint o'r adroddiadau hynny a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd;
- Nifer yr adroddiadau a wnaed i adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru am gosbi plentyn yn gorfforol yng Nghymru, a faint o'r adroddiadau hynny a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd;
- Y costau a ysgwyddir gan unrhyw awdurdod Cymreig datganoledig (fel y'i nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006[1]) o ganlyniad i newidiadau i'r gyfraith;

[1] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/schedule/9A

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Y costau a ysgwyddir gan unrhyw awdurdod Cymreig datganoledig am hyfforddi gweithwyr o ganlyniad i'r newidiadau hyn i'r gyfraith; a
- Nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi gan unrhyw awdurdod Cymreig datganoledig sydd wedi mynychu hyfforddiant o ganlyniad i'r newidiadau hyn i'r gyfraith.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gydgadeiryddion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gasglu a Monitro Data, a byddaf hefyd yn anfon copi ohono i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, er gwybodaeth.

Yn gywir,



**Julie Morgan AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Senedd Cymru
Pwyllgor Busnes
—
Welsh Parliament
Business Committee



At: Holl Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd
Dros ebost

15 Mawrth 2021

Annwyl Gadeirydd,

**Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 – effaith ar Bwyllgorau'r Senedd**

Ar ôl pasio Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021, rwyf yn ysgrifennu i dynnu eich sylw at yr effaith ar fusnes pwyllgorau cyn diddymu'r Senedd.

Mae'r Bil yn byrhau cyfnod y diddymiad fel ei fod yn dechrau wythnos cyn diwrnod yr etholiad, sydd wedi'i drefnu ar gyfer 6 Mai 2021. Bydd y diddymiad yn dechrau ar 29 Ebrill, a bydd yr Aelodau yn parhau i fod yn Aelodau o'r Senedd hyd nes y dyddiad hwnnw.

Y rhesymeg ar gyfer byrhau cyfnod y diddymiad (un wythnos yn hytrach na phedair), fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil, yw:

- Galluogi unrhyw bwerau newydd (y darperir ar eu cyfer yn y Bil) i ohirio'r etholiad (na ellir eu harfer yn ystod cyfnod y diddymiad) i gael eu harfer hyd at wythnos cyn yr etholiad; a
- Darparu dull o alluogi'r Senedd bresennol i ymateb, os bydd angen iddi wneud hynny, i'r materion iechyd y cyhoedd sy'n datblygu yn y cyfnod yn arwain at yr etholiad.

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno y dylid rhoi chwarae teg i bob ymgeisydd cyn belled ag y bo modd, yn ystod cyfnod yr etholiad, er mwyn sicrhau etholiad teg a chyfle cyfartal i bawb. Mae'r egwyddor hon wedi cael ei hadlewyrchu mewn penderfyniadau a wnaed gan Gomisiwn y Senedd wrth ystyried a fydd adnoddau'r Senedd ar gael i Aelodau a phwyllgorau'r Senedd yn ystod y cyfnod. Byddwch yn cofio y gwnaeth Fforwm y Cadeiryddion drafod a chymeradwyo'r dull hwn hefyd yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror.

Yn unol â'r egwyddor hon, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno ar y drefn a ganlyn:

- Bydd y Senedd ar doriad rhwng 7 Ebrill a 28 Ebrill, sef 'y cyfnod cyn y diddymiad'. Bydd y cyfnod cyn y diddymiad yn dilyn toriad y Pasg (29 Mawrth - 6 Ebrill). Mae hyn yn gyson â blynyddoedd etholiad blaenorol, pan fo toriad y Pasg wedi arwain yn uniongyrchol at y diddymiad;
- Er mwyn sicrhau 'chwarae teg' i'r holl ymgeiswyr i'r graddau mwyaf posibl yn ystod cyfnod yr etholiad, bydd busnes y Senedd yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad yn cael ei gyfyngu i'r hyn sy'n gysylltiedig â dibenion penodol y diddymiad byrrach fel y nodir ym Memorandwm Esboniadol y Bil;

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPwyllgorBusnes@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
0300 200 6565

- Felly, bydd holl weithgareddau pwyllgorau'r Senedd yn dod i ben yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad;
- Fodd bynnag, o ystyried ei rôl wrth graffu ar reoliadau brys, caiff y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gwrdd os bydd angen iddo drafod rheoliadau brys sy'n ymwneud â'r coronafeirws, o'r math y byddai angen adalw'r Senedd ar eu cyfer, neu reoliadau sy'n ymwneud â gohirio etholiad y Senedd 2021, yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad. Noder, ni fyddai angen i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar reoliadau gwneud cadarnhaol yn ymwneud â'r coronafeirws fel mater o drefn yn ystod y cyfnod hwn.

Er y bydd Cadeiryddion ac aelodau'r Pwyllgorau yn aros yn eu lle yn ffurfiol, disgwylir i holl weithgareddau pwyllgorau'r Senedd ddod i ben yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Cyhoeddi adroddiadau pwyllgorau;
- Gwneud datganiadau cyhoeddus, drwy unrhyw gyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol;
- Cyfeirio at safle'r Aelod ar y Pwyllgor mewn unrhyw fforwm cyhoeddus.

Pe bai etholiad y Senedd yn cael ei ohirio yn unol ag adran 6 o'r Bil, byddaf yn cynnull y Pwyllgor Busnes i drafod amserlen fusnes y Senedd, gan gynnwys trefnu amserlenni busnes pwyllgorau.

Pan fydd y Bil wedi cael Cydsyniad Brenhinol, byddaf yn ysgrifennu at yr holl Aelodau ynghylch busnes y Senedd yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad.

Yn gywir,

**Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon